

## Bus Users UK Cymru

Blwch Swyddfa'r Post 1045  
Caerdydd, CF11 1JE

Ffôn: 029 2022 1370

Ebost: [wales@bususers.org](mailto:wales@bususers.org)

[www.bususers.org](http://www.bususers.org)

[www.bususerswales.org](http://www.bususerswales.org)



GWEITHIO AM DEITHWYR

# CLUDIANT CYHOEDDUS I BOBL GYDAG AMDDIFADIAD SYNHWYRAIDD

Canllaw Ymarfer Gorau ar gyfer gweithredwyr ac awdurdodau  
lleol ar Ddarpariaeth Gwasanaethau Cludiant Cyhoeddus yng  
Nghymru i Bobl gydag Amddifadiad Golwg a Chlyw



# y gwasanaeth gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru...



- ✓ Cynlluniwch eich taith ar-lein
- ✓ Archwilio amserlenni bysiau
- ✓ Amserau bysiau trwy neges destun
- ✓ Ffoniwch ni ar 0871 200 22 33\*



Lawr lwythwch ein App iPhone  
newydd – AM DDIM!



\*Mae cost galwad yn 10c y funud yn  
ogystal ag unrhyw gostau a gyflwynir  
gan eich darparwr rhwydwaith.



[www.TravelineCymru.info](http://www.TravelineCymru.info)

0871 200 22 33

Gwybodaeth teithio didrafferth  
Trouble free travel info

# cynnwys

|                              |    |
|------------------------------|----|
| 1. Cyflwyniad                | 03 |
| 2. Cylch gorchwyl            | 07 |
| 3. Aelodau'r grŵp            | 08 |
| 4. Argymhellion              |    |
| hyfforddiant                 | 09 |
| cyfranogiad                  | 11 |
| gwybodaeth                   | 13 |
| 5. Deddfwriaeth a hygyrchedd | 16 |
| 6. Canfyddiadau ymchwil      | 18 |
| 7. Dadansoddiad              | 27 |
| 8. Casgliadau                | 41 |
| 9. Gwybodaeth bellach        | 45 |

---

**Nodyn 1:** Mae copïau o'r ddogfen hon i'w cael mewn fformatau gwahanol yn ôl y galw gan Bus Users UK Cymru.

**Nodyn 2:** Er mwyn byrdra, defnyddir y term "amddifadiad synhwyrdd" trwy gydol y ddogfen yn hytrach na therminoleg arall.

---

# cyflwyniad

“Ni ddylem orfod gofyn i bobl i ble rydym yn mynd pan esgynnwn ar fws, na pha bryd i ddisgyn pan fyddwn ar y bws. Ac ni ddylid o angenrhaidd ein gorfodi i gydymweithio â phobl eraill os y dymunwn beidio... fe ddylai'r system weithio fel y gallwn fod yn deithwyr annibynnol. Mae'r boblogaeth yn gyffredinol yn teithio'n annibynnol, pam nad allwn ni? Nid yw er fy mudd fy hun yn unig... y mae er budd pawb.”

**Cyfranogwr Grŵp Ffocws (Mehefin 2005)<sup>1</sup>**

## 1.1

Mae miloedd o bobl yn defnyddio cludiant cyhoeddus yn ddyddiol er mwyn teithio i'r gwaith, i ymweld â ffrindiau a theulu, i fynychu apwyntiadau gofal iechyd, i ddilyn gweithgareddau hamdden neu i fynd ar wyliau. Ond mae pobl anabl yn parhau i wynebu nifer o rwystrau a all wneud teithio ar gludiant cyhoeddus yn anodd, neu hyd yn oed yn amhosibl.

## 1.2

Mae'r canllaw ymarfer gorau hwn yn cwmpasu'r tri phrif ddull o gludiant cyhoeddus a ddefnyddir gan bobl gydag amddifadiad synhwyrdd neu amhariadau – bysiau, trenau a thacsis. Mae'n crynhoi'r safle cyfreithiol, beth all ac y dylai teithiwr gydag amddifadiad synhwyrdd ei ddisgwyl yn rhesymol, ynghyd â beth all darparwyr cludiant ac awdurdodau lleol ei wneud i wella'r daith o'i chychwyn hyd at ei therfyn.

## 1.3

Gwnaeth y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DDA) gynnydd sylweddol drwy atal gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl.

---

<sup>1</sup>“Audio and Visual Information on Buses: Moving Towards Inclusion”, adroddiad a gynhyrchwyd ar gyfer Guide Dogs. ISBN 0-9524038-4-6

#### 1.4

Mae'r DDA bellach wedi'i disodli gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf hon yn amodi na ddylai busnesau wahaniaethu yn anghyfreithlon drwy eu darpariaeth o nwyddau a gwasanaethau. Mae'n diffinio naw o "nodweddion sydd wedi'u hamddiffyn", sef Oed, Anabledd, Ailddosbarthiad Rhywiol, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Crefydd neu Gred, Rhyw, Tuedd Fryd Rhywiol a Hil.

#### 1.5

O dan Ddeddf 2010, mae gan berson anabledd os oes ganddo ef/ganddi hi "nam corfforol neu feddyliol, sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hir-dymor ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd-i-ddydd".

#### 1.6

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb mae "darparwyr gwasanaeth" yn cynnwys y mwyafrif o gwmnïau neu sefydliadau sy'n cynnig nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau i aelodau o'r cyhoedd. Nid oes ots pa un ai yw'r gwasanaethau yn rhad ac am ddim neu wedi'u talu amdanynt. Nid oes ots pa mor fawr neu fach yw'r sefydliad (un person neu gwmni mawr) neu pwy sy'n ei redeg (y llywodraeth, sefydliad gwirfoddol neu fusnes masnachol).

#### 1.7

Mae awdurdodau cludiant wedi'u gwarchod gan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol a ddisgrifir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, fel ag y mae sefydliadau sy'n ymafer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Byddai hyn felly yn cwmpasu gweithredwyr cludiant cyhoeddus.

#### 1.8

Mae Cyfarwyddyd yn datgan p'un ai yw sefydliad yn ymarfer eu swyddogaethau o natur gyhoeddus ai peidio yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys – ymysg eraill – a ydyw wedi'i ariannu'n gyhoeddus, a yw'n ymarfer pwerau a neilltuwyd iddo gan ddeddf, neu os yw'n cymryd lle llywodraeth ganolog neu leol.

#### 1.9

Mae ffactorau eraill yn cynnwys os yw'n darparu gwasanaeth cyhoeddus, os yw ei strwythurau a'i waith wedi'u cysylltu'n agos â'r corff Gwladol sy'n dirprwyo, a oes perthynas agos rhwng y corff preifat ac unrhyw awdurdod cyhoeddus.

### 1.10

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn nodi bod yn rhaid i'r rhai hynny sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb, yn eu gweithrediad o'u swyddogaethau, roi sylw priodol i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Ymestyn cydraddoldeb cyfleon rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi'u hamddiffyn, a'r rheiny nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd sydd wedi'i hamddiffyn, a'r rheiny nad ydynt.

### 1.11

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar 4 thema drawstorri – hyfforddiant, cyfranogiad, gwybodaeth a hygyrchedd.

# cylch gorchwyl

## 2.1 Cefndir

---

### 2.1.1

Yn Ebrill 2008, cyfarfu 'Deaf Blind Cymru' gyda'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC i drafod mynediad i gludiant cyhoeddus ar gyfer y rheiny gydag amddifadiad synhwyraidd.

### 2.1.2

Yn dilyn y cyfarfod, y mae grŵp o fudd-ddeiliaid wedi bod yn cyd-weithio i ganfod yr arfer gorau a chynhyrchu argymhellion a allai gael eu taenu ar draws y diwydiant cludiant cyhoeddus.

### 2.1.3

Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, roedd y grŵp yn ystyriol o'r hinsawdd ariannol anodd cyffredinol, ac y dylai ei argymhellion dybio na fyddai unrhyw arian newydd ar gael i'w gweithredu. Mae cynhyrchiad yr adroddiad hwn yn wybodus ynghylch darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 2.2 Cylch Gorchwyl

---

### 2.2.1

Cylch Gorchwyl y Grŵp ar gyfer ei ymchwiliad i'r ddarpariaeth cludiant cyhoeddus ar gyfer pobl gydag amddifadiad synhwyraidd oedd, fel a ganlyn:

- "Bydd y grŵp tasg a chwblhau yn cynhyrchu adroddiad a fydd yn:
- Amlygu enghreifftiau o'r ymarfer gorau mewn ymateb i anghenion pobl â nam neu amddifadiad synhwyraidd ar gludiant cyhoeddus; a
- Gwneud argymhellion i weithredwyr ac awdurdodau lleol ar sut i wella profiadau pobl sydd â nam neu amddifadiad synhwyraidd ar gludiant cyhoeddus drws-i-ddrws."

# aelodau'r grŵp

## 3.0

---

### 3.1

Y grwpiau a oedd yn rhan o baratoad y canllaw arfer da hwn oedd:

**Action on Hearing Loss Cymru**

**Bysiau Arriva Cymru**

**Trenau Arriva Cymru**

**Bus Users UK Cymru**

**Cymdeithas Cludiant Cymunedol yng Nghymru**

**DeafBlind Cymru**

**Cymdeithas Cŵn Tywys Deillion Cymru**

**Passenger Focus**

**SENSE Cymru**



# argymhellion

## 4.0

---

### 4.1

Pe caent eu gweithredu, credwn y bydd ein hargymhellion o gymorth i wella bywydau pobl gydag amddifadiad synhwyrdd. Bydd unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl gydag amddifadiad synhwyrdd yn dymuno cymryd diddordeb agos ar sut y bydd gweithredwyr ac awdurdodau yn ymateb i'n hargymhellion.

### 4.2

Er bod ein hargymhellion wedi'u cyfeirio at yr hyn y dylai gweithredwyr ei wneud, a'r hyn y dylai awdurdodau lleol eu gwneud, dylent oll gymryd diddordeb mawr yng nghyfrifoldebau a pherfformiad eraill. Dylai pob gweithredwr ac awdurdod lleol gynnwys a gweithio gyda GoSkills a sefydliadau cynrychiadol nam ar y synhwyrdd er mwyn gweithredu ar yr argymhellion a fydd yn gwella ymwybyddiaeth staff o amddifadiad synhwyrdd.

### 4.3

#### **Rhaid i weithwyr perthnasol dderbyn hyfforddiant addas**

#### 4.3.1

##### **Beth ddylai teithwyr ddisgwyl?**

Taith esmwyth a di-ffwdan gyda chymorth gan staff sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n deall anghenion teithwyr gydag amddifadiad neu nam synhwyrdd.

Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau profiad cadarnhaol i deithwyr gydag amddifadiad synhwyrdd. Mae agweddau negyddol a/neu ddiffyg ymwybyddiaeth, a staff nad ydynt wedi'u cymhwyso'n ddigonol i ateb anghenion teithwyr gydag amddifadiad synhwyrdd yn cyfrannu at brofiadau gwael i rywun sy'n ceisio defnyddio cludiant cyhoeddus. Dylai'r hyfforddiant gynnwys arweiniad penodol ar ymwybyddiaeth am y byddar ac ymwybyddiaeth am namau gweledol.

### 4.3.2

## Beth ddylai gweithredwyr ei wneud?

### T1

Dylai gweithredwyr trenau, bysiau a thacsis osod camau clir a mesuradwy ac amserlen ar gyfer cwrdd â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### T2

Dylai gweithredwyr bysiau, trenau a thacsis sicrhau bod eu staff yn derbyn hyfforddiant cadarn mewn ymwybyddiaeth o'r synhwyrâu, yn enwedig hyfforddiant ymwybyddiaeth gweledol a byddar, gan gynnwys defnyddio offer, dan arweiniad pobl anabl, fel rhan o'u cyflwyniad a datblygiad parhaol. Dylid adolygu a mesur hyn fel bod staff wedi'u harfogi i ymateb i anghenion teithwyr anabl. Dylai gweithredwyr weithio gydag ac ymgynghori â GoSkills a sefydliadau cynrychiadol nam ar y synhwyrâu. Ffordd dda o wneud hyn fyddai drwy'r Dystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol (CPC).

### T3

Dylai gweithredwyr trenau, bysiau a thacsis gydnabod y sialensiau y mae pobl gydag amddifadiad ar eu golwg neu ar eu clyw yn eu hwynebu yn aml. Er bod ychydig o debygrwydd parthed hyfforddiant staff a hygyrchedd gwybodaeth, ceir hefyd wahaniaethau sylweddol yn y modd y dylai darparwyr cludiant ymateb. Mae angen ymagwedd llawer mwy ystyriol, nid un sy'n gosod pobl anabl mewn un grŵp gyda'r un anghenion.

### T4

Dylai gweithredwyr tacsis ddarparu hyfforddiant ar gyfer eu gyrwyr ar anghenion teithwyr gydag amddifadiad synhwyradd ac atgyfnerthu'r gofyn cyfreithiol i gario ci tywys neu gi cymorth.

### T5

Dylai gweithredwyr tacsis ddarparu pob gyrrwr tacsî newydd â hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth cydraddoldeb, amrywiaeth ac anabledd (sydd ar gael mewn Lefel 2 o'r Dyfarniad BTEC "Cludo Teithwyr mewn Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat").

## **T6**

Dylai gweithredwyr tacsï ddarparu hyfforddiant mewn gwasanaeth cwsmer ar gyfer staff ffôn mewn swyddfeydd archebu tacsï.

## **4.4 CYFRANOGIAD**

**Rhaid i bobl gydag amddifadiad synhwyrdd fod yn rhan o benderfyniadau sy'n eu heffeithio.**

### **4.4.1**

**Beth ddylai teithwyr ddisgwyl?**

Mae'n holl bwysig bod pobl â nam synhwyrdd yn rhan o gynlluniad a dyluniad pob newid i bolisi, ymarferion a darpariaeth gwasanaeth. Rhaid ystyried anghenion pobl gyda nam neu amddifadiad synhwyrdd pan fo newidiadau'n cael eu gwneud er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol. Dylai pob gweithredwr ac awdurdod lleol gynnwys a gweithio gyda sefydliadau cynrychiadol nam ar y synhwyrdd i ddatblygu argymhellion a fydd yn gwella cyfranogiad cludiant cyhoeddus.

### **4.4.2**

**Beth ddylai gweithredwyr ei wneud?**

#### **E1**

Dylai gweithredwyr trenau, bysiau a thacsï osod camau clir a mesuradwy ac amserlen ar gyfer cwrdd â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## **E2**

Dylai gweithredwyr trenau, bysiau a thacsï gynnwys yn ystyrllon bobl gydag amddifadiad synhwyrdd a sefydliadau cynrychiadol ym mhob newid i gynlluniau, polisiau, ymarferion, darpariaeth gwasanaeth, adolygiadau a gwerthusiadau.

## **E3**

Dylai gweithredwyr bysiau gysylltu â grwpiau amhariad synhwyrdd i ystyried cynlluniad mewnol a threfniant seddau er mwyn sicrhau bod bysiau'n cadw gofod digonol ar gyfer ci tywys, a dylent wirio hygrychedd nodweddion (e.e. rampiau) ar fysiau'n rheolaidd, a thrwy hynny leihau methiannau.

Mae'r gwaith a wnaed ar y cerbydau newydd ar gyfer rhwydwaith bysiau hirbell TrawsCymru yn enghraifft dda o hyn.

## **E4**

Dylai gweithredwyr tacsï alluogi teithwyr â chadeiriau olwyn i flaen-archebu er mwyn sicrhau bod cerbydau addas yn cael eu darparu.

### 4.4.3

## Beth ddylai awdurdodau lleol ei wneud?

### E5

Gosod camau clir a mesuradwy ac amserlen ar gyfer cwrdd â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### E6

Sicrhau bod staff perthnasol yn ymgymryd â hyfforddiant grymus mewn ymwybyddiaeth synhwyaidd, yn benodol ymwybyddiaeth weledol a byddar, gan gynnwys y defnydd o offer, fel rhan o'u sefydliad a'u datblygiad parhaol. Dylid adolygu a mesur hyn fel bod staff wedi'u harfogi i ymateb i anghenion teithwyr anabl.

### E7

Yn ystyrlon, gynnwys pobl gydag amddifadiad synhwyaidd a sefydliadau cynrychioladol ym mhob newid i ddyluniad, polisiâu, arferion a darpariaeth gwasanaeth, a hefyd mewn adolygiadau a gwerthusiadau.

### E8

Sicrhau bod eu Pwyllgorau Diogelwch y Cyhoedd (neu gyfwerth) yn parhau i fonitro perfformiad tacsis, diddymu trwyddedau pan fo'r angen neu benderfynu bod angen i yrrwr gwblhau cwrs BTEC.

### E9

Cyflwyno Gorchmynion Traffig a gorfodi rheoliadau parcio mewn arosfannau bysiau.

### E10

Gweithio gyda gweithredwyr trenau ac eraill i wella mynediad i orsafoedd rheilffyrdd, tynnu rhwystrau corfforol, darparu mynediad gwastad neu rampiau i orsafoedd, a darparu rheiliau llaw ac arwynebau lliw rhybuddio cyffyrddol cyferbyniol a marcwyr i ddynodi stepiau.

### E11

Cynnwys mewn tendrau am wasanaethau cytundebol, ddarpariaeth gwybodaeth glyweled hygyrch a chywir, gan gynnwys defnyddio arwyddion clir sy'n hawdd i'w deall, yn ogystal â defnyddio'r broses yn gyffredinol i wella safon cerbydau i deithwyr gydag amddifadiad synhwyaidd.

## E12

Adolygu'r eithriadau ar gyfer gyrwyr tacsis rhag cludo cŵn tywys neu gymorth am resymau meddygol, a chan ystyried hyn, sicrhau bod tacsis digonol a Cherbydau Hurio Preifat ar gael i dderbyn cŵn.

## E13

Bod yn flaenweithgar - efallai drwy siopa dirgel - drwy fonitro a gorfodi'r gofynion i gario cŵn tywys a chymorth. Bydd perchennog dall neu rannol ddall ci cymorth sy'n teithio ar ei ben ei hun ac sy'n cael ei wrthod rhag teithio gyda'i gi yn ei chael hi'n anodd adnabod y cerbyd a/neu'r gyrrwr, felly aiff rhai achosion heb eu hadrodd.

## 4.5 GWYBODAETH

**Mae hygyrchedd gwybodaeth yn hanfodol i bobl â nam synhwyaidd.**

### 4.5.1

#### **Beth ddylai teithwyr ei ddisgwyl?**

Taith esmwyth a di-ffwdan ar ôl derbyn yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i gwblhau'r daith.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol, hygyrch a diweddaraf yngl n â darpariaeth gwybodaeth yn hanfodol i annog pawb i ddefnyddio cludiant cyhoeddus ac i sicrhau eu bod yn mwynhau taith ddiogel a llwyddiannus. Mae'n bwysig iawn i bobl gydag amddifadiad synhwyaidd.

### 4.5.2

#### **Beth ddylai gweithredwyr ei wneud?**

##### I1

Dylai gweithredwyr trenau, bysiau a thacsis osod camau clir a mesuradwy ac amserlen ar gyfer cwrdd â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

##### I2

Dylai gweithredwyr trenau ddarparu gwybodaeth hygyrch ar sut i dderbyn rhestr o orsafoedd heb staff, sut i gwyno, ac ynglŷn â diogelwch.

##### I3

Dylai gweithredwyr trenau sicrhau bod arddangosfeydd gwybodaeth weledol amser real wedi'u gosod ym mhob gorsaf, ac yn cael eu cynnal yn gywir.

##### I4

Gan ddefnyddio ystod o fformatau hygyrch, dylai gweithredwyr trenau, bysiau a thacsis hysbysu pobl anabl am welliannau i'r wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â gwasanaethau cludiant cyhoeddus.

**I5**

Dylai gwefannau gweithredwyr trenau ddisgrifio gorsafoedd ar lafar a dylent fod yn hygyrch i feddalwedd darllen sgrin – e.e. sut i gyrraedd yno, a oes yna risiau i'r platform, a yw'r orsaf wedi'i staffio, ac os oes bysiau a thacsis i hwyluso'r daith ymlaen.

**I6**

Dylai gweithredwyr trenau, bysiau a thacsis ddarparu amserlenni a gwybodaeth arall (e.e. pa fysiau sy'n hygyrch neu sydd â chyhoeddiadau clyweled, neu dywyswyr taith) drwy ystod o fformatau hygyrch.

**I7**

Dylai gweithredwyr bysiau a threnau sicrhau bod gwybodaeth glywedol a gweledol mewn cerbydau neu gludwyr, neu mewn gorsafoedd neu arosfannau, yn hysbysu teithwyr am fannau aros nesaf, pen teithiau terfynol ac unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth.

**I8**

Dylai gweithredwyr trenau hysbysebu eu rhif Cymorth Anabledd a manylion am y System Neilltuo Teithiwr Cymorthedig (APRS) yn fwy amlwg a hygyrch ym mhob gorsaf.

**I9**

Dylai gweithredwyr bysiau ystyried darparu gwybodaeth glyweled ar fysiau, ac yn y cyfamser sicrhau bod gyrwyr yn gwneud cyhoeddiadau.

**I10**

Dylai gweithredwyr trenau hyrwyddo'r ffaith y gellir canfod swyddfeydd tocynnau mewn gorsafoedd yn ychwanegol i beiriannau tocynnau; a phan na fydd staff mewn swyddfeydd tocynnau yng Nghymru, bydd tocynnau ar gael ar y trê'n a bydd pob gât tocynnau ar agor.

**I11**

Dylai gweithredwyr trenau hyrwyddo'r ffaith bod synwryddion gatau tocynnau yn canfod pan fo teithiwr wedi symud y tu hwnt i'r gât er mwyn osgoi ei chau yn rhy fuan, ond ni allant ganfod bagiau isel ar olwynion sy'n cael eu llusgo y tu ôl i'r teithiwr.

**I12**

Dylai gweithredwyr trenau hyrwyddo'r ffaith, yn gyffredinol, nad oes unrhyw drên yn gadael cyn bod pob teithiwr wedi esgyn neu ddisgyn oddi ar y trê'n. Dylai unrhyw un a allai gael trafferth i ddisgyn o'r trê'n, ond nad yw wedi trefnu cymorth o flaen llaw, hysbysu'r Tocynnwr, fel y gall ef/hi gynnig cymorth yn yr orsaf ar ben y daith.

### **I13**

Dylai gweithredwyr trenau ei gwneud hi'n amlwg i deithwyr y dylai'r Tocynnwr fod ar y platfform mewn gorsafoedd heb staff i gynorthwyo unrhyw un i esgyn neu ddisgyn oddi ar y trê.

### **I14**

Dylai gweithredwyr trenau, bysiau a thacsis sicrhau bod cyhoeddiadau clywadwy yn hawdd eu clywed, gan ddisodli systemau o safon wael.

### **I15**

Dylai gweithredwyr tacsis gynnig negeseuon testun i bobl sydd yn fyddar neu'n drwm eu clyw.

### **I16**

Dylai gweithredwyr trenau, bysiau a thacsis sicrhau bod cyhoeddiadau iechyd a diogelwch ar gael mewn ystod o fformatau hygyrch.

## **4.5.3**

### **Beth ddylai awdurdodau lleol ei wneud?**

#### **I17**

Gosod camau clir a mesuradwy ac amserlenni ar gyfer cwrdd â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### **I18**

Annog gweithredwyr i sicrhau bod cyhoeddiadau clywadwy yn hawdd i'w deall, eu bod yn disodli systemau o safon wael ac yn gwella gallu staff gweithredwyr i siarad yn glir.

### **I19**

Adnabod ac ateb materion integreiddiad a chynhwysedd ac egluro eu cynigion i'w goresgyn mewn Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol.

### **I20**

Gweithio gyda gweithredwyr bysiau i ddarparu gwybodaeth glyweled amser real hygyrch mewn arosfannau bysiau yn ychwanegol i rif testun Traveline.

### **I21**

Darparu manylion gwasanaethau cludiant cymunedol o fewn eu hardaloedd, gan weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Cludiant Cymunedol.

### **I22**

Darparu cyngor cryfach ar faterion anabledd, gyda chyfeiriad arbennig ynglŷn â chŵn tywys a chŵn clyw.

# deddfwriaeth a hygyrchedd

## 5.1

### Darpariaethau Deddfwriaethol Cyffredinol

#### 5.1.1

Gwelwyd gwelliannau sylweddol a chroesawus i hygyrchedd cludiant cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan i weithredwyr cludiant ddechrau ystyried elfennau gwasanaeth cwsmer y DDA a bellach Deddf Cydraddoldeb 2010.

#### 5.1.2

Ymgwymerwyd â chyflwyno nodweddion hygyrchedd ar fysiau a choetsis wedi'u rheoleiddio o ganlyniad i Reoleiddiad Hygyrchedd Cerbydau Cludiant Cyhoeddus (PSVAR) 2000.

#### 5.1.3

Mae hygyrchedd cerbydau rheilffordd yn deillio o Reoleiddiad Hygyrchedd Cerbydau Rheilffordd (RVAR) 1998 a'i adolygiad dilynol yn 2010 ar gyfer cerbydau rheilffordd ysgafn. Hefyd, ceir y Rheoleiddiad System Rheilffordd Rhyngweithiadwy HCRh 2008, sy'n rheoli cerbydau rheilffordd trwm ac isadeiledd gorsafoedd. Mae gan Network Rail hefyd rôl allweddol mewn rheoli gorsafoedd a gwasanaethau trenau.





#### 5.1.4

Mae gofynion y RVAR yn cael eu hadolygu a'u diwygio yn gyson. Mae fersiwn ddiweddaraf y RVAR yn mabwysiadu'r adran cerbydau rheilffordd o'r Manylebau Technegol Ewropeaidd ar Ryngweithiadwyedd ar Gyfer Pobl Gyda Symudedd Gostyngol (PRMTSI), y dylid eu gweithredu'n llawn erbyn 2019-2020, pan fydd rhaid i bob trê'n a gorsaf ateb y gofynion.

#### 5.1.5

Gosododd strategaeth yr Adran Drafnidiaeth (DfT), "Rheilffyrdd i Bawb"<sup>2</sup> ("Railways for All"), ymrwymïadau eang i gynyddu cyfleoedd teithio i bobl anabl drwy wella gorsafod, trenau a gwasanaethau perthynol. .

#### 5.1.6

Mae Rhan 12 o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cyfeirio at ganllawiau y dylai cerbydau cludiant newydd eu cyrraedd. Rhaid i bob bws fod yn hygyrch erbyn 2017, a phob trê'n erbyn 2020. Bu'n rhaid i gerbydau newydd fod yn hygyrch ers cryn amser. Yn ffodus, ceir sawl enghraifft o weithredwyr bysiau wedi cyflwyno'r gwelliannau hygyrchedd hyn o flaen y dyddiad cwblhau. Mae'r bws Stagecoach hwn yn enghraifft ardderchog.

#### 5.1.7

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys ATW yn ailwampio eu cerbydau gydag arddangosfeydd gweledol ac amgylchedd disgleiriach ym mhob rhan o'r trê'n, yn gosod arddangosfeydd gweledol yn eu gorsafod a, gyda chymorth gan Lywodraeth

Cymru, yn gosod 'crybiau' platfformau cyfor dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnig moddau diogelach o gamu ar ac oddi ar drenau drwy leihau'r bwllch rhwng y platfform a'r trê'n.



---

<sup>2</sup> [www.dft.gov.uk/transportforyou/access/rail/rfa/](http://www.dft.gov.uk/transportforyou/access/rail/rfa/)

# canfyddiadau ymchwil

## 6.1

### Pa faterion sy'n wynebu pobl gydag amddifadiad synhwyrdd sy'n ceisio defnyddio cludiant cyhoeddus?

#### 6.1.1

Lluniwyd yr adroddiad hwn fel cymorth i adnabod y problemau sy'n wynebu pobl â nam gweledol neu ar eu clyw, neu amddifadiad. Ceir themâu cyffredin, ond fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried yr hyn a wyddom ynglŷn â phrofiadau neilltuol.

## 6.2

### Pobl â nam ar eu clyw

#### 6.2.1

Yn ôl ymchwil gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru (RNID Cymru)<sup>3</sup>, y mae 61% o ymatebwyr holiaduron yn canfod bod yn fyddar neu'n drwm eu clyw yn ei gwneud hi'n anos i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, tra bod 66% yn canfod ei bod hi'n gwneud defnyddio cludiant cyhoeddus yn anos ar eich pen eich hun. Adnabu 65% bod diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â'r byddar fel y prif rwystr i ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

#### 6.2.2

Mae'r system cludiant cyhoeddus yn allweddol i sicrhau y gall y cyhoedd gael mynediad i wasanaethau y tu hwnt i'w hamgylchedd uniongyrchol. Mae angen amlygu hyn ymhellach i bobl gydag amddifadiad synhwyrdd gan fod cyswllt allanol o gymorth i frwydro'r unigedd a all fod ynghlwm ag amddifadiad synhwyrdd, yn enwedig i bobl hŵn.

#### 6.2.3

Mae gan fwy na 70% o bobl dros 70 oed raddfa o golled clyw a dyma'r oed pan fo pobl angen cludiant cyhoeddus fwy nag erioed i sicrhau parhad rhyngweithiad cymdeithasol a chael byw'n annibynnol. Dywed tystiolaeth RNID Cymru yn "Agored i Bawb"<sup>3</sup> ("Open to All") a gyhoeddwyd yn 2010, bod diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â'r byddar gan reng flaen staff cludiant a'r diffyg gwybodaeth hygyrch yn rwystrau i bobl gydag amddifadiad clyw rhag defnyddio cludiant cyhoeddus. Gall a dylai'r rhwystrau hyn gael eu goresgyn yn hawdd, drwy sicrhau bod cludiant cyhoeddus yng Nghymru yn agored i bawb.

#### 6.2.4

Mae defnyddwyr cludiant cyhoeddus sy'n dioddef o nam clywedol yn dynodi trenau fel y dulliau anoddaf iddynt eu defnyddio.

#### 6.2.5

Dyweddodd un ym mhob pedwar ymatebwr (27%) ei bod hi'n anodd derbyn gwybodaeth cyn teithio ar drên, tra bod mwy na dau o bob pump (42%) yn dweud ei bod hi'n anodd yn ystod y daith. Profodd bron i 60% o ymatebwyr sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) neu Saesneg â Chymorth Arwyddion (SSE) hi'n anodd canfod gwybodaeth cyn teithio a dywedodd bron i dri chwarter (72%) ei bod hi'n anodd yn ystod y daith.

#### 6.2.6

Amlygodd cyfranogwyr fforwm yr angen am arddangosfeydd gwybodaeth amser real gweledol mewn trenau a gorsafoedd rheilffyrdd, hyfforddiant ymwybyddiaeth y byddar ar gyfer staff rheng flaen, ac anawsterau gyda chlywed cyhoeddiadau clywadwy.

#### 6.2.7

Profodd bron i un ym mhob pum ymatebwr (18%) anhawster mewn canfod gwybodaeth cyn teithio ar fws neu goets, tra bod 28% yn dweud ei bod hi'n anodd derbyn gwybodaeth yn ystod taith. Canfyddodd cyfranogwyr ifanc fforwm agored yn neilltuol bod diffyg ymwybyddiaeth y byddar ymysg gyrrwyr bysiau a'r rhwystr y mae hynny'n ei greu ar gyfer teithwyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw.

#### 6.2.8

Dyweddodd un o bob pum ymatebwr (20%) ei bod hi'n anodd canfod gwybodaeth cyn teithio mewn tacsï neu gab bychan, tra bod mwy na chwarter (28%) yn dweud ei bod hi'n anodd cael gwybodaeth yn ystod taith.

#### 6.2.9

Yn gyffredinol, felly, mae gan gyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn "Agored i Bawb" ("Open to All") anhawster mewn canfod gwybodaeth wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

---

<sup>3</sup> RNID Cymru (2010) "Agored I Bawb?", adroddiad RNID Cymru i'r rhwystrau i bobl fyddar a trwm eu clyw.

## 6.3

### Pobl â nam ar eu golwg

#### 6.3.1

Cyhoeddwyd yr adroddiad "Functionality and the Needs of Blind and Partially Sighted Adults in Wales"<sup>4</sup> gan Guide Dogs 'Functionality and the Needs of Blind and Partially Sighted Adults in Wales'. Guide Dogs (2007) ym mis Medi 2007. Dangosodd yr adroddiad bod 27% o bobl â nam ar eu golwg yng Nghymru yn canfod bysiau yn anodd iawn eu defnyddio. Y prif reswm am hyn oedd methu dweud pan fyddai'r gyrchfan wedi'i chyrraedd, fel bod teithiwr â nam ar eu golwg yn gallu disgyn oddi ar y bws mewn arhosfan anghyfarwydd.

#### 6.3.2

Nid yw'n syndod, felly, nad yw 70% o bobl â nam ar eu golwg yng Nghymru byth yn mynd allan eu hunain, a bod nifer yn ei chael hi'n anodd defnyddio bysiau yn annibynnol.

#### 6.3.3

Daw'r dyfyniadau isod o'r adroddiad "Audio and Visual Information on Buses: Moving Towards Inclusion" gan y grŵp ffocws a grybwyllwyd eisoes yn yr adroddiad hwn.

"Y peth gwaethaf am deithio ar fysiau... yw nad ydych mewn rheolaeth oni bai eich bod yn gwybod lle'r ydych yn mynd a phryd i fynd i ffwrdd."

"Rhaid i mi ddweud, dwi weithiau'n nerfus iawn ynglŵn â ble y byddaf yn cyrraedd."

"Mae defnyddio bysiau mor aml ag ydw i yn brofiad hunllefus. Dwi'n gofidio am gollir bws oherwydd nad ydw i'n gwybod pryd y cyrhaeddodd ac y gadawodd, ac rwyf dan bwysau gyda'r posibilrwydd o beidio â gadael yn yr arhosfan cywir..."

"Pan mae'n diriogaeth anhysbys nad ydych wedi'i brofi erioed o'r blaen, gall fod yn llawer mwy dychrynlyd a mentrus i mi..."

"Mae disgyn yn yr arhosfan anghywir yn straen mawr ...nid yw'n rhywle yr hoffech fod..."

### 6.3.4

Er gwaethaf gwaith da iawn sy'n cael ei wneud mewn rhai ardaloedd, mae angen gwneud mwy i wella profiadau i'r teithwyr hyn. Mae'r canllaw hwn yn ceisio darparu rhai enghreifftiau o'r camau a ellid eu cymryd i wella'r profiad i deithwyr gydag anableddau synhwyrdd o ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

## 6.4

### Hygyrchedd

#### 6.4.1

Rydym wedi dynodi sawl mater a fyddai, pe baent yn cael eu datrys, yn gwella profiad pobl gydag amddifadiad synhwyrdd yn sylweddol.

### Agosau at yr orsaf

- Dylai pob cwrbyn gostyngol sy'n arwain at fynedfa'r orsaf gael palmant pothellog cyffyrddol argymelledig.
- Rhaid i bob llwybr fod yn glir rhag rhwystrau.
- Dylai fod palmant neu lwybrau i gerddwyr wedi'u diffinio'n glir tuag at ac o'r gwasanaethau cludiant.
- Dylai arwyddion wrth ddynesu at orsafoedd fod yn glir ac addysgiadol.
- Rhaid i bob arwydd gyferbynnu yn erbyn eu hamgylchoedd a rhaid i'r testun gyferbynnu hefyd gyda chefnidir yr arwydd.

---

<sup>4</sup> 'Functionality and the Needs of Blind and Partially Sighted Adults in Wales'. Guide Dogs (2007)

## Cynulliad yr orsaf

- Dylai fod system canfod-ffordd dda o amgylch y cynulliad.
- Dylai'r dderbynfa fod yn hawdd i'w chanfod gydag arwyddion clir. Os oes gan y swyddfa docynnau ffenestr wydr, dylai fod amlygiadau arni i ddangos ei phresenoldeb yn amlwg. Dylai fod gan y swyddfa docynnau system glyw cylchwifren wedi'i gosod a'u chynnal a'i chadw.
- Dylai arwyddion fod yn rhai parhaol, clir, gyda chyferbyniadau da i gynorthwyo i adnabod cyfleusterau.
- Dylai sgriniau arddangos fod yn hygyrch. Os ydynt wedi'u gosod yn rhy bell i ffwrdd neu'n rhy uchel i ddefnyddwyr sy'n gweld yn rhannol, dylid darparu sgriniau ychwanegol gerllaw peiriannau tocynnau neu lwybrau i'r platfformau i alluogi teithwyr sy'n gweld yn rhannol i weld yr wybodaeth a arddangosir.

## Platfformau

- Dylai stepiau sy'n arwain at blatfformau fod â sribedi cyferbyniol ("ymylon stepiau") arnynt i ddynodi ymyl y step.
- Rheiliau llaw cyferbyniol â phalmant rhib ar frig a gwaelod y stepiau.
- Dylai ymyl y platfform hefyd gael y palmant pothellog atred argymelledig.
- Dylai sgriniau arddangos fod yn hygyrch a chael eu diweddarau'n gyson i adlewyrchu unrhyw newidiadau munud olaf.

### 6.4.2

Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen gyda nifer o fesurau i wella hygyrchedd mewn gorsafoedd rheilffyrdd.



### 6.4.3

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymrwymiad i drosglwyddo integreiddiad mwy rhwng dulliau trafnidiaeth. Mae hwn yn nod allweddol o dan y Cynllun Cludiant Cenedlaethol ac o dan Raglen £40m Gwelliannau Gorsafoedd Cymru, ac mewn buddsoddiadau eraill, megis cynllun Ymgynffwrdd Bangor. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw y dylai pob person, gan gynnwys y rhai hynny ag anableddau, allu gwneud teithiau cludiant cyhoeddus drws-i-ddrws syml i'r cyrchfannau teithio dewisol.
- Cynnal perthynas waith glòs a chynhyrchiol gyda Chymdeithas Cwmnïau Gweithredu Trenau (ATOC), a chynorthwyo ATOC i wella ei ymrwymiad â phobl a grwpiau defnyddwyr yn ei adolygiad o'r APRS. Gweithio gyda ATOC a gweithredwyr trenau i ddatblygu mecanwaith ar gyfer monitro safon a throsglwyddiad yn y dyfodol o dan yr APRS, ac ynglŷn â hyfforddiant staff rheng flaen i gynorthwyo pobl anabl.
- Cynnwys gofyniad ym manyleb nesaf etholfraint Cymru a'r Gororau i'r deiliad rhyddfraint i fonitro bodlonrwydd teithwyr gyda'r APRS ac i adrodd arnynt yn gyson. Yna, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r deiliad rhyddfraint i gytuno unrhyw weithred ofynnol o ganlyniad.
- Annog awdurdodau lleol ac eraill i weithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd i ymgymryd â chardiau rheilffordd pobl anabl. Mae rhan yn hyn i gyrrff cynrychiadol a grwpiau defnyddwyr.
- Sicrhau bod Trenau Arriva Cymru (ATW) yn gwella'r posteri, taflenni a gwybodaeth arall sydd ar gael i gynorthwyo pobl anabl. Mae canllaw ATW "Gwneud Trenau'n Hygyrch: Helpu Teithwyr Hŵn ac Anabl", yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iawn, ond dylid ei hyrwyddo'n well.
- Gweithio gyda'i bartneriaid o fewn y diwydiant rheilffyrdd i gyrraedd statws teilwng drwy ymwneud gweithredol pobl anabl wrth gynllunio gwelliannau rheilffyrdd ac yn monitro materion hygyrchedd. Mae moderneiddiad Gorsaf Stryd Fawr Abertawe yn enghraifft dda.
- Ymrwymiad i ariannu sgriniau gwybodaeth cwsmer ym mhob gorsaf o dan Raglen Gwelliannau Gorsafoedd Cymru.
- Parhau i gadw mewn cysylltiad agos â DfT a Network Rail – y ddau sefydliad sy'n gyfrifol am y rhaglen "Mynediad i Bawb" – i drafod gwelliannau mewn gorsafoedd yng Nghymru o dan y rhaglen Cynlluniau Mawr.

- Cynnwys gofyniad ym manylebau nesaf etholfraint Cymru a'r Gororau i'r deiliad rhyddfraint i osod targedau safonau i wella cymorth a gwybodaeth i deithwyr anabl ac i adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllaw ar yr isafswm o ofynion hygrychedd i adeiladau y maent yn buddsoddi ynddynt. Yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i bob derbynnydd cyllid ganddi ar gyfer gwelliannau rheilffyrdd i ymwneud yn weithredol â phobl anabl a phobl â nodweddion wedi'u hamddiffyn o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn adeiladu ar y gofynion presennol am Aseiad Effaith Cydraddoldeb o dan y broses gwerthuso cludiant WelTag ac ar gyfer pob cynllun o dan Raglen Gwelliannau Gorsafoedd.
- Yn dilyn Teithiau Rheilffyrdd Hygyrch Llywodraeth Cymru, cafwyd cyfres o drafodaethau manwl ac ymweliadau safle yn cynnwys pob partner yn y cynllun a grwpiau defnyddwyr lleol. O ganlyniad, gwnaed gwelliannau dyluniad i'r cynllun, fel bod, er enghraifft, cyfleuster "Newid Llefydd" wedi'i ymgorffori i adlewyrchu'r un sy'n cael ei ddarparu yng ngorsaf Bws y Cwadrant ac mewn mannau eraill yn Abertawe. Mae'r ymwneud gweithredol hwn yn cael ei ehangu i grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.



## 'Crwmachau'

Mae'r rhain yn ddatrysiadau arloesol gan Network Rail i ateb y broblem o blatfformau isel. Maent yn cynnig mynediad haws lle ceir problem uchder-stepio mewn gorsafoedd. Mae'r gosodiad yn strwythur arbennig sy'n gostwng y pellter rhwng y platfform a threnau heb fod angen ailadeiladu platfform cyfan. Gosodir crwmach graddedig o wydr plastig wedi'i atgyfnerthu, a gaiff ei addasu yn y ffatri er mwyn gweddu i nodweddion yr orsaf benodol.

Daw mewn rhannau sy'n cysylltu gyda'i gilydd er mwyn creu unrhyw hyd. Mae'n galluogi defnyddio rampiau ar drenau, sydd ar gael ar bob trên ATW, ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn ac eraill ar blatfformau lle mae'r graddiant yn rhy serth fel arall. Fel rheol, byddai'n costio isafswm o £250,000 i ailadeiladu un platfform syml i'w addasu i safonau modern.

Mae'r Cynllun Mynediad Haws eisoes wedi'i osod yn llwyddiannus yng ngorsafoedd Aberdyfi a'r Fali. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu astudiaeth dichonolrwydd, sy'n cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Network Rail a ATW, ar grymachau ychwanegol posibl yng Nghymru.



- Cynhaliwyd ymgynghoriadau cymunedol anffurfiol ond trylwyr ar y Gosodiadau Mynediad Haws peilot yn Aberdyfi a'r Fali.
- Dylai pob cwmni gweithredu trenau a Network Rail – lle mae'n berchen gorsafoedd – sicrhau bod gwelliannau hygyrchedd wedi'u cynnwys mewn unrhyw ailwampiad neu ailddatblygiad. Gall awdurdodau lleol gael rôl hefyd.
- Dylai gweithredwyr trenau sicrhau bod systemau cylchwifren yn cael eu gosod mewn bythau tocynnau a bod pob system cylchwifren yn cael eu hysbysebu'n amlwg, a'u cynnal a'u cadw'n gyson, a bod yr holl staff wedi'u hyfforddi ar sut i'w gweithredu.
- Gan adlewyrchu anghenion pobl gydag amddifadiad synhwyrdd, dylai gweithredwyr bysiau flaenoriaethu bysiau hygyrch llawr-isel i ddisodli cerbydau llai hygyrch a darparu gwasanaeth cyson.
- Lle bo'n bosibl, dylai gweithredwyr taccis osod systemau cylchwifren yn eu cerbydau i alluogi cyfathrebiad haws rhwng defnyddwyr cymhorthion clywed a gyrwyr.

- Lle bo hynny'n bosibl, dylai gweithredwyr taccis sicrhau clociau taccis gweledol fel bod y teithiwr yn gallu gweld y gost yn glir.

Mewn arosfannau bysiau – a ddylent fod yn weledol amlwg i deithwyr a gyrwyr – sicrhau bod yna:

- Mynediad gwastad/cyforyrbiau Troedffyrdd di-rwystr, clir rhwng bysiau a theithwyr. Llochesi wedi'u goleuo'n dda gyda seddi, sy'n dryloyw gydag amlygiadau ar y gwydr i wahaniaethu rhyngddo ag agoriadau.
- Llochesi gyda gosodion a ffitiadau gyda lliwiau cyferbyniol cymeradwy.
- Arddangosfeydd Gwybodaeth Amser Real clir a chlywadwy.
- Amserlenni a gwybodaeth bysiau hawdd eu darllen.

# dadansoddiad

## 7.0

### 7.1


Ceir sawl enghraifft o arfer da ledled Cymru, megis yng ngorsaf fysiau y Coed Duon, isod. Ni allwn amlygu pob un ohonynt, ond rydym wedi ceisio cyfeirio at nifer sy'n cynrychioli'r gorau. Maent yn dangos y math o gymorth ymarferol y mae pobl â nam synhwyrdd ei angen i deithio fel pawb arall ar gludiant cyhoeddus.

### 7.2.1

Mae gan ddarparwyr gwasanaeth "ddyletswydd ddisgwyllgar" i feddwl o flaen llaw am addasiadau rhesymol y gallent fod angen eu gwneud neu eu cynllunio. Mae hyn oherwydd bod dyletswyddau yn ddyledus i bobl anabl yn gyffredinol ac yn berthnasol pa un ai yw'r darparwr gwasanaeth yn gwybod fod person neilltuol yn anabl ai peidio.

## 7.2

### Darparwyr gwasanaeth



### 7.2.2

Cyhoeddodd Passenger Focus adroddiad "System Neilltuo Teithiwr Cymorthedig: siopwr dirgel" ym Medi 2008"<sup>5</sup>, gydag adroddiad dilynol a ryddhawyd yn Ionawr 2011.

### 7.2.3

Darganfu hwn fod yr APRS i nifer o deithwyr yn hanfodol i'w galluogi i deithio ar y rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol. Gall defnyddwyr ffonio rhif canolog ac archebu cymorth i ddefnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd o ddechrau eu taith i'w diwedd, gan gynnwys newid trenau.

### 7.2.4

Ni ddylai archebu fod yn ofynnol ond gellir rhoi blaenoriaeth i'r rhai hynny sydd wedi archebu cymorth. Gall archebu fod yn iawn ar gyfer teithiau a drefnwyd o flaen llaw, ond gall fod yn anodd ar gyfer teithiau ar hap ac i deithiau cyson, megis cymudo.

## 7.3

### Materion cyffredin

### 7.3.1

Mae teithwyr gydag amddifadiad synhwyraidd yn wynebu nifer o faterion cyffredin wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Gan adlewyrchu ymchwil eraill a ffynonellau ychwanegol o wybodaeth, credwn mai'r canlynol yw'r rhain:

### Cyferbyniad Iliw

#### 7.3.2

Mae hyn yn arwyddocaol iawn i unrhyw un â nam gweledol. Mae angen cyferbyniad addas ar gyfer handlenni drws, rheiliau llaw, stepiau a gosodiadau gorsaf, megis seddi a byrddau arwyddion. Eto, ceir sawl enghraifft o arfer da cyffredol, fel y dangosir yn y cerbyd Stagecoach hwn.



---

<sup>5</sup> <http://www.passengerfocus.org.uk/news-and-publications/document-search/default.asp?go=1&keywords=September+2008&x=36&y=7>

## Goleuo

### 7.3.3

Wrth osod goleuadau, dylai gweithredwyr ac awdurdodau lleol ystyried anghenion penodol teithwyr gydag amddifadiad synhwyrdd. Felly, dylai goleuadau fod yn ateb yr angen ac yn addas i'r lleoliad, a dylid eu cynnal a'u cadw yn gyson i sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol.

## Gwybodaeth Hygyrch

### 7.3.4

Fel pob defnyddiwr cludiant cyhoeddus arall, mae teithwyr dall a rhannol ddall angen gwybodaeth gywir a hygyrch ynglŷn â'r daith gyfan cyn cychwyn. Mae angen i weithredwyr ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chywir, gan gynnwys ar fyrddau cyrchfan, fel y gwelir ar y bws Stagecoach hwn. Dylid hefyd gofio bod pobl ddall a rhannol ddall yn brwydro yn aml i gael gwybodaeth yn eu fformat dewisol. Ni all nifer ohonynt gael mynediad i wefan o gwbl.



### 7.3.5

O ganlyniad, mae'n hanfodol cynnwys:

- Lle mae bysiau'n teithio yno ac oddi yno.
- Pa un a yw bysiau'n rhai llawr-isel, neu fod ganddynt gyhoeddiadau gweledol neu glywadwy.
- Sut i leoli'r orsaf drenau o'r arhosfan bws.
- Pa un a oes angen iddynt newid trenau ar y ffordd, a sut i wneud hyn.
- Sut a ble i archebu cymorth ar deithiau trên gan ddefnyddio APRS.

Pa un a oes angen tacsï arnynt i gwblhau unrhyw ran o'r daith a sut i leoli safle tacsï o'r orsaf bws neu drenau.

## Cysondeb yn y lifrai a ddefnyddir y tu mewn i drenau

### 7.3.6

Mae hyn yn gysylltiedig â'r angen i hyrwyddo lliwiau cyferbyniol addas. Nid yw mwy llachar yn angenrheidiol yn well i deithwyr dall a rhannol ddal, ac mae angen i gyferbyniad lliw gael ei ddefnyddio i ddangos lle mae drysau a seddi a chyfleusterau wedi'u lleoli, ac nid er mwyn dibenion esthetig yn unig.

## Cyhoeddiadau mewn gorsafoedd

### 7.3.7

Mae nifer o bobl yn cael trafferth clywed a deall cyhoeddiadau. Fodd bynnag, mae cyhoeddiad clir a chlywadwy yn hynod bwysig i deithwyr gydag amddifadiad synhwyrdd. Felly, dylai cyhoeddiadau clywadwy mewn gorsafoedd fod yn glir a dealladwy, a rhaid i arddangosiadau gweledol fod yr uchder cywir ac yn defnyddio cyferbyniad lliw addas, a phrint bras.

## Integreiddiad rhwng gwasanaethau, a rhwng moddau

### 7.3.8

Ychydig o orsafoedd bysiau a threnau sydd yn agos at ei gilydd yng Nghymru.

- Rhaid i awdurdodau lleol a gweithredwyr gofio eu cyfrifoldebau i sicrhau - lle bo hynny'n bosibl – bod gan orsafoedd trenau arosfannau bws wedi'u lleoli yn agos iawn atynt i alluogi teithwyr i barhau eu taith, neu i gyrraedd yr orsaf drenau ar fws.
- Mae hyn hefyd yn berthnasol i leoliad safleoedd tacsis, sydd angen bod yn hygyrch o orsafoedd trenau.

## Tocynnu

### 7.3.9

Mae tocyn dilys yn amlwg yn hanfodol ar gyfer unrhyw un sy'n mynd ar daith ar gludiant cyhoeddus. Ond, ceir rhai rhwystrau neilltuol i deithwyr gydag amddifadiad synhwyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae angen i gatiau tocynnau adael amser digonol i deithwyr ag anableddau i fynd drwyddynt cyn iddynt gau.
- Ni all teithwyr dall neu rhannol ddall ddefnyddio peiriannau tocynnau sgriniau cyffwrdd.

## Paseb Penfro

Mae Paseb Penfro yn fenter ar y cyd rhwng Grŵp Mynediad Penfro a Chyngor Sir Benfro. Waled lachar oren ydyw gyda phocedi clir y gall person anabl osod geiriau, lluniau neu gardiau ynddi i ddangos lle maent am deithio neu i ddangos pa gymorth sydd ei angen arnynt.

Yn wreiddiol, derbyniodd y pasbort gyllid gan Her Iechyd Penfro, a gellir ei ddefnyddio unrhyw adeg o'r dydd neu nos ac ar benwythnosau, a bydd yn dweud wrth yrwyr bysiau a staff rheilffyrdd pa gymorth y mae person ei angen ar daith. Drwy wneud hynny, mae'n cynorthwyo cyfathrebiad a gall gynnwys gwybodaeth bwysig ynglŷn â'r gefnogaeth fydd ei angen pe bai person yn wynebu problem ar y daith. Gellir defnyddio'r Paseb ar unrhyw fws ym Mhenfro ac ar drenau a gorsafoedd Arriva. Bydd gyrrwyr tacsis hefyd yn gwybod am y waled.



### Cael amser digonol i esgyn a disgyn oddi ar gerbydau

#### 7.3.10

Mae esgyn a disgyn oddi ar gerbydau yn rhan o'u taith a allai fod yn beryglus i unrhyw deithiwr, ond mae'r perygl o ddamwain yn un real iawn i deithiwr gydag amddifadiad synhwyraidd.

#### 7.3.11

Mae cymorth ymarferol wedi'i danategu gan bolisiau manwl fel bod gweithredwyr ac awdurdodau lleol yn gallu cael eu mesur yn erbyn eu perfformiad.

#### 7.3.12

Mae gan Bws Caerdydd bolisi hygyrchedd sy'n arbennig o gynorthwyol a manwl.

## **Astudiaeth achos: Polisi “Hygyrchedd i’n bysiau” Bws Caerdydd**

Mae Bws Caerdydd yn cydnabod bod ystod o anabledau - gan gynnwys symudedd, synhwyraidd a gwybyddol – a allai fod angen sylw ychwanegol gan yrwyr. Mae’n cydnabod nad yw pob person anabl yn defnyddio cadeiriau olwyn, a gall pobl anabl fod angen gwahanol ddulliau o gymorth i allu cael mynediad i’r system drafnidiaeth. Mae staff y cwmni yn gwneud pob ymdrech posibl i uchafu hygyrchedd i deithwyr ag anabledau.

Dylai staff ofyn i deithwyr a ydynt angen cymorth – e.e. efallai nad yw teithiwr gyda nam gweledol yn gwybod fod staff yn aros i gynorthwyo. Efallai na fydd teithwyr ag anawsterau clyw yn hawdd i’w hadnabod, ac anogir staff i fod yn ystyriol o hyn ac i weithredu yn ôl yr angen.

Dylai staff hefyd fod yn amyneddgar. Dylai staff gynorthwyo teithwyr i gyrraedd eu seddi drwy gynnig cyfarwyddiadau clir a chaniatáu amser iddynt i eistedd. Mae teithwyr â ffyn cerdded yn eu defnyddio ar gyfer cydbwysedd yn ogystal â symudedd, ac felly angen amser ychwanegol i godi ac eistedd.

Caiff cŵn cymorth eu hadnabod fel rheol yn ôl eu siacedi neu drwy eu harneisiau unigryw. Mae angen cynnig amser i gŵn a’u perchnogion i setlo i lawr. Fodd bynnag, ni all cŵn ddarllen amserlenni bysiau, nid ydynt yn gwybod pa arhosfan ydyw ac maent yn dibynnu ar eu perchnogion i wybod lle maen nhw er mwyn rhoi cyfarwyddiadau. Yn eu tro, gallai perchnogion ddibynnu ar yrwyr i ddarparu’r wybodaeth honno. Felly, os yw teithiwr yn gofyn am arhosfan, bydd staff yn eu cynorthwyo drwy gyhoeddi pan fydd y bws yn aros yno.

Nid yw Bws Caerdydd yn gweithredu system ‘arhosfan ar gais’ felly dylai gyrwyr aros mewn arhosfan bws pan fo teithwyr yn sefyll oni bai ei bod hi’n amlwg i’r gyrrwr nad ydynt angen y bws hwnnw. Mae’r Cerdyn Bws yn gerdyn plastig defnyddiol gyda’r gair ‘BWS’ wedi’i ysgrifennu ar bob ochr er mwyn arwyddo i yrwyr.

Dylai staff hefyd adnabod a deall arwyddocâd bathodynnew, megis y bathodyn Cymdeithas Gweld yn Rhannol. Mae gan rai sefydliadau eraill fathodynnew tebyg. Mae ffyn o wahanol liwiau a hyd yn dynodi bod gan y teithiwr nam neu amddifadiad gweledol a/neu symudedd, neu mewn achos ffon â streipiau coch, bod y person yn fyddar/ddall ac yn dynodi golwg gwael ac amddifadiad clyw.



### **7.3.13**

Mae camu o blatfform ar neu oddi ar drên yn beryglus iawn i bobl ddall neu rannol ddall. Mae'r bwlch rhwng y ddau yn amrywio'n llorweddol a fertigol, ac mewn gorsafoedd heb staff, efallai na fydd neb i gynorthwyo. Yn ychwanegol, mae'r ddarpariaeth o sribedi rhybudd cyffyrddol o liwiau cyferbyniol addas yn anghyson ac yn absennol yn aml.

### **7.3.14**

Er mwyn mynd ar drên, mae angen i deithiwr dall neu rhannol ddall i leoli ymyl y platfform yn ofalus, ac yna ddrws y trên, tra bod yn ymwybodol o'r amser y maent yn ei gymryd a'r angen i weithredu'n gyflym.

### **7.3.15**

Wrth ddod oddi ar y trên, mae'n rhaid iddynt leoli'r platfform y maent yn camu arno, eto gan weithredu'n gyflym, a disgyn yn ddiogel cyn i'r trên adael. Mewn gorsaf heb staff, bydd y daith ymlaen yn ddibynnol ar wybod yn union lle maent yn mynd a sut i ganfod eu ffordd i'r allanfa.

### **7.3.16**

O ganlyniad, mae angen rhoi digon o amser i alluogi hyn i ddigwydd heb fod teithwyr o dan straen, neu fod eu diogelwch yn cael ei gyfaddawdu.

## Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Staff

### 7.3.17

Nid yw agweddau di-fudd yn gyffredin ond maent yn parhau i fodoli mewn cludiant cyhoeddus, ac mae hyn yn aml oherwydd diffyg dealltwriaeth staff yn hytrach nag anwybodaeth neu anfoesgarwch. Fodd bynnag, gall hyn amlygu ei hun yn wahanol i bobl gydag amddifadiad synhwyraidd.

### 7.3.18

O ganlyniad, dylid mewnosod hyfforddiant ymwybyddiaeth fyddar a gweledol i raglenni hyfforddiant i sicrhau bod staff yn ymwybodol ohonynt, ac yn deall sut i gyfathrebu'n effeithiol â phobl gydag amddifadiad synhwyraidd.


“Roedden nhw'n aros amdanaf wrth i'r trênn gyrraedd, edrych arnaf yn dda a mynd â fi i'r lolfa gwsmeriaid. Gofynnwyd i mi a oeddwn angen y tŷ bach, nôl te i mi a chynnig cario fy magiau.”

### 7.3.19

Mae angen hefyd i staff i gyfathrebu gyda'i gilydd. Mae hyn yn bwysig iawn pan fo staff ar drenau yn newid yng nghanol taith. Ni ddylai teithwyr gydag amddifadiad synhwyraidd orfod rhoi gwybodaeth drosodd a throsodd am eu hanghenion cefnogaeth, felly dylai staff wneud pob ymdrech posibl i rannu gwybodaeth.

### 7.3.20

Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod eu staff wedi'u hyfforddi mewn ymwybyddiaeth fyddar ac anabled. Dylai hyn gynnwys rheolwyr a chyfarwyddwyr, ond mae'n hanfodol bwysig i staff sy'n delio'n uniongyrchol â chwsmeriaid. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i fabwysiadu'r arfer gorau wrth ddelio â chwsmeriaid anabl, yn enwedig y rheiny sy'n fyddar. Gall hyn fod yn addasiad rhesymol, a bydd yn dda i fusnes.



# **Astudiaeth Achos: BWS STAGECOACH UK**

## **Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd a chynhwysiad cymdeithasol yn cynorthwyo gyrwyr i:**

- Deall deddfwriaeth anabledd fel y mae'n berthnasol i'r diwydiant trafnidiaeth.
- Deall eu cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaeth.
- Gwybod pa gymorth y dylent ac y gallant gynnig i gwsmer anabl.
- Deall anawsterau pobl anabl wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus.
- Deall "cynhwysiad cymdeithasol" a'r goblygiadau i gwsmeriaid a gyrwyr.
- Datblygu'r sgiliau i ddelio â chwsmeriaid gydag amrywiaeth o anabledau.
- Deall pryd a sut i ddefnyddio offer bws i gynorthwyo cwsmeriaid anabl.
- Wynebu rhagdybiaethau a dysgu gwerthfawrogi'r gymysgedd o bobl o fewn cymunedau.

## **Persbectifau pobl ddall neu rhannol ddall**

- Edrychwch amdanaf.
- Arafwch wrth yr arhosfan bws, yn agos at y cwrbyn.
- Dywedwch 'Helo' a dywedwch rif y bws wrthyf.
- Helpwch fi gyda'r system brisiau.
- Rhowch wybod i mi pan fyddaf wedi cyrraedd dy arhosfan.
- Dywedwch wrthyf ble mae sedd wag.
- Arhoswch nes i mi eistedd i lawr cyn symud ymlaen.

## **Persbectifau pobl fyddar neu sydd â nam ar eu clyw**

- Wynebwch fi bob amser a byddai gwên yn dda.
- Edrychwch yn fy llygaid.
- Siaradwch yn normal.
- Weithiau byddai'n gymorth pe baech yn dangos map i mi neu'n sgwennu pethau i lawr.

## Addasiadau rhesymol

### 7.3.21

Rhan 3 o'r Ddeddf Cydraddoldeb yw'r rhan o'r gyfraith sy'n gofyn i ddarparwyr gwasanaethau i wneud "addasiadau rhesymol" i sichrau bod eu gwasanaeth yn hygyrch. Ar gyfer gorsafoedd ac isadeiledd cludiant, mae hyn yn cynnwys gwneud addasiadau i nodweddion corfforol y cyfleusterau, yn ogystal ag addasiadau i'r ffordd y trosglwyddir y gwasanaeth.

### 7.3.22

Os yw cwsmeriaid anabl yn ei chael hi'n "amhosibl neu'n anrhesymol anodd" i gael mynediad i nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau, mae'n rhaid i ddarparwyr wneud "addasiadau rhesymol" i'r ffyrdd y maent yn darparu'r nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau hynny.

### 7.3.23

Maent yn cynnwys:

- Newid y ffordd y darperir gwasanaeth - "arferion, polisiau neu drefn".
- Darparu cymorth neu wasanaeth ychwanegol pe bai hyn yn helpu neu'n galluogi rhywun i gael mynediad i wasanaeth – er enghraifft, cylchwifren neu gefnogaeth cyfathrebu.
- Tynnu neu newid nodweddion corfforol, megis drysau, goleuo neu sgriniau gwydr, os yw'r rhain yn creu rhwystrau i gael mynediad i'r gwasanaeth – neu ddarparu'r gwasanaeth mewn modd gwahanol.

### 7.3.24

Mae "addasiadau rhesymol" yn cynnwys darparu cymorthfeydd ychwanegol neu wasanaethau i alluogi teithwyr i gael mynediad i wasanaeth, neu ei gwneud hi'n haws iddynt i wneud hynny.

**"Mae lein y Cambria yn dda iawn; mae ganddi arwyddion gweledol i ddangos yr arhosfan nesaf"**

**(Gwryw, dros 60oed, trwm ei glyw, Gogledd Cymru)**

**"Rwy'n gwybod fod gan rai trenau sgrîn sy'n rholio gwybodaeth i'ch hysbysu lle mae'r trên yn mynd, a pha bryd fydd yr arhosfan nesaf. Fe welais un ar drên Virgin; rwy'n meddwl y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn pe bai ein rhwydwaith lleol yn gwneud hynny."**

**(Benyw, 40-50oed, defnyddiwr-BSL, Gogledd Cymru)**

## **Gwybod lle i gael cymorth mewn argyfwng**

### **7.3.25**

Mae pob teithiwr yn ei chael hi'n gysurlon gwybod sut i gael cymorth os oes angen. Eto, mae hyn yn hynod wir am bobl gydag amddifadiad synhwyrdd. Felly, rhaid cael cysondeb yn y modd y mae pobl yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol, fel bod pobl gydag amddifadiad synhwyrdd yn gallu lleoli safleoedd cymorth mewn gorsafoedd.

## **Dywed y Ddeddf Cydraddoldeb bod yna bedwar math o wahaniaethu anghyfreithlon:**

### **7.3.26**

Dywed y Ddeddf Cydraddoldeb bod yna bedwar math o wahaniaethu anghyfreithlon:

- Gwrthod neu'n methu'n fwriadol i wasanaethu rhywun oherwydd eu hamddifadiad synhwyrdd.
- Cynnig gwasanaeth o safon is neu ddarparu gwasanaeth mewn modd gwaeth.
- Darparu gwasanaeth ar delerau gwaeth.

**Peidio â gwneud "addasiadau rhesymol" os yw hyn yn angenrheidiol i alluogi rhywun i ddefnyddio'r gwasanaeth yn llawn.**

## **Cymhorthion neu wasanaethau ychwanegol**

### **7.3.27**

Darparu cefnogaeth cyfathrebu, megis dehonglwyr BSL/Saesneg cymwysedig (wyneb-yn-wyneb neu drwy ffôn-fideo), siaradwyr gwefus, cofnodwyr neu ohebwy'r llafar-i-destun.

### **7.3.28**

Darparu offer, megis cylchwifren neu system isgoch, ffôn-destun, ffôn â chwyddseinydd neu gyplwr anwythol, ffôn-fideo neu larwm tân â goleuadau'n fflachio.

### **7.3.29**

Gwneud gwybodaeth brintiedig ac ar-lein yn hygyrch drwy ysgrifennu mewn Saesneg clir; gan sicrhau bod DVDs neu glipliau fideo ar unrhyw wefannau wedi'u his-deitlo, a'u harwyddo, neu'r ddau..

### 7.3.30

Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gymryd camau i ddelio â rhwystrau i fynediad a achosir gan "nodweddion corfforol" ar eiddo darparwr gwasanaeth.

- Mae nodweddion corfforol yn cynnwys stepiau, goleuo, ardaloedd parcio, llwybrau dianc, cyrbau, drysau mewnlol / allanol, cyfleusterau cyhoeddus (ffonau/cownteri), arwyddion ac eitemau dros dro / symudol (megis rhestlau arddangos).
- Unrhyw nodwedd sy'n berthnasol i gynllun/adeiladwaith adeilad neu'r ffordd yr ydych yn mynd i mewn a / neu allan ohono, neu'r ffordd yr ydych yn cael mynediad iddo – er enghraifft, drysau neu feysydd parcio.
- Unrhyw ddarnau gosod a gosodiadau, dodrefn, offer neu ddeunyddiau. Gall y rhain nail ai fod yn yr adeilad neu wedi'u cludo iddo gan y darparwr gwasanaeth neu gan rywun sy'n gwneud gwaith ar gyfer y darparwr gwasanaeth – er enghraifft, rhesel arddangos, cadeiriau a chownter derbynfa.

### **Unrhyw nodwedd gorfforol arall o'r tir sy'n rhan o'r adeiladau.**

### 7.3.31

Mae darparwyr gwasanaeth cludiant sy'n defnyddio mathau arbennig o gerbydau wedi'u gwarantu gan Ran 3 o'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r cerbydau hyn yn cynnwys bysiau, taccis a threnau.

### 7.3.32

Ni ddylai darparwyr cludiant wahaniaethu pan yn:

- Darparu (neu beidio darparu) cerbyd i berson anabl, e.e. ni ddylai cwmni trenau gweithredol wahardd person byddar rhag teithio gyda chi clyw.
- Darparu (neu beidio darparu) gwasanaeth i berson anabl wrth ei bod hi/ef yn teithio mewn cerbyd, e.e. cyhoeddiadau am arosfannau ar fysiau.

## **Cŵn Cymorth**

### 7.3.33

Os nad yw cwmni trenau fel rheol yn caniatáu cŵn ar eu trenau, mae'n debygol y bydd rhaid iddynt newid eu polisi ar gyfer cŵn cymorth cofrestredig. Ceir cyfreithiau penodol sy'n dweud na all gyrwyr wrthod cludo cŵn cymorth cofrestredig. Mae'r rhain yn cynnwys cŵn clyw.

### 7.3.34

Awdurdodau trwyddedu sy'n gyfrifol am gyflwyno trwyddedau i dacsis Hacnai (du) a Cherbydau Hurio Preifat (CHP/PHVs). Gellir canfod tacsis mewn rhenciau neu eu stopio yn y stryd. Rhaid i yrwyr a'u cerbydau fod wedi'u trwyddedu, yn ogystal â gweithredwyr. Mae CHP yn derbyn galwadau o gylched radio ac nid oes prisiau gosod.

### 7.3.35

Yn gyfredol, mae awdurdodau lleol unigol (trwyddedu) yn gyfrifol am bolisiau tacsî hygyrch. Mae rhai awdurdodau yn gofyn i yrwyr i ymgymryd â chysiau ymwybyddiaeth anableded er mwyn derbyn trwydded, a bod gyrwyr newydd yn ymgymryd â chwrs BTEC.

### 7.3.36

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb mae'n drosedd i yrwyr tacsî trwyddedig a chabiau bychain preifat i wrthod cludo teithiwr sydd â chi tywys cofrestredig neu gi cymorth, i godi tâl uwch oherwydd hyn, neu i wrthod caniatáu i'r ci aros gyda'r teithiwr.

### 7.3.37

Gall gyrrwr tacsî neu gab bychan wrthod cludo ci cymorth cofrestredig yn unig os oes gan y gyrrwr dystysgrif eithriad meddygol a gyflwynwyd gan yr awdurdod trwyddedu. Rhaid i'r gyrrwr arddangos y dystysgrif eithrio bob amser. Mae'n drosedd i ffugio trwydded eithrio.

### 7.3.38

Mae cŵn cymorth cofrestredig yn cynnwys y rhai hynny a hyfforddwyd gan Gŵn Clywed ar Gyfer Pobl Fyddar. Rhaid i berchnogion/gofalwyr sicrhau bod eu cŵn yn gwisgo siaced gyda'r geiriau 'Cŵn Clywed ar Gyfer Pobl Fyddar' arni. Os yw'r elusen hyfforddi wedi cyflwyno cerdyn adnabod i'r ci, dylai'r perchennog/gofalwr ei gario gyda nhw i ddangos bod y Ci Clyw yn gi cymorth cofrestredig.



## **Astudiaeth Achos: TRENAU ARRIVA CYMRU**

Mae 'Cŵn Cymorth (DU)' yn cynrychioli pum elusen gofrestredig. Y rhain yw: Canine Partners, Dogs for the Disabled, Hearing Dogs for Deaf People, Support Dogs a The Guide Dogs for the Blind. Mae Trenau Arriva Cymru wedi cyflwyno 'Canllaw Teithio Cŵn Cymorth' mewn partneriaeth gyda phob un o'r Elusennau.

Prif nod y cynllun yw codi ymwybyddiaeth o anghenion perchnogion Cŵn Cymorth ymysg ein gweithwyr wrth deithio ar drên. Yn gynyddol, mae perchnogion Cŵn Cymorth yn mwynhau buddion a rhyddid teithio. Mae eu cŵn yn derbyn hyfforddiant trylwyr i'w paratoi ar gyfer defnyddio cludiant cyhoeddus.

Yn y mwyafrif o achosion, nid yw perchnogion cŵn yn profi problemau wrth deithio gyda Threnau Arriva Cymru. Un maes a amlygwyd mewn adborth cwsmeriaid y gellid ei ddatblygu ymhellach yw darpariaeth 'gofod amddiffynedig' ar gyfer cŵn y cwsmeriaid.

Mae Cŵn Cymorth yn cael eu hyfforddi i eistedd ger traed eu perchennog ac yn naturiol angen gofod ychwanegol i eistedd neu orwedd yn ystod eu taith. Trwy ddilyn ychydig gamau syml, bydd y cynllun yn cynorthwyo i sicrhau bod pob Ci Cymorth a'u perchennog yn gallu teithio'n ddiogel ac yn gyfforddus.



# casgliadau

## 8.0



### 8.1

Eisoes ceir llawer o arferion da yn digwydd, fel y gwelir gyda'r gofod cadair olwyn hwn ar Stagecoach, isod. Roedd Cynllun Cludiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymgynghoriad â budd-ddeiliaid er mwyn canfod sawl thema gritigol i hygyrchedd gwell. Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhwydwaith integredig gwell yng Nghymru yn cynnwys cynigion i wella hygyrchedd.

### 8.2

Fodd bynnag, mae yna lawer mwy y gellir ac sydd angen ei wneud i wella profiadau i bobl gydag amddifadiad neu nam synhwyraidd. Rydym wedi adnabod tri phrif faes, a fyddai, pe baent yn cael eu hwynebu, yn gwella'r profiadau i'r unigolion hyn yn sylweddol. Cânt eu datblygu mewn manylder pellach yn ein hargymhellion, sef:

## Hyfforddiant

### 8.3

Dylai darparwyr gwasanaethau a gwybodaeth cludiant cyhoeddus sicrhau bod eu staff yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth weledol a byddar yn gyson. Mae'n hanfodol bod staff uwch wedi'u hyfforddi i'r un lefel â staff sy'n wynebu'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn deall beth sy'n ddisgwyliedig gan eu staff. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth byddar a gweledol yn reddfal wahanol o'i gymharu â hyfforddiant cydraddoldeb, gan ei fod yn cynnig dealltwriaeth sylfaenol i gyfranogwyr o'r materion y mae pobl gydag amddifadiad synhwyraidd yn eu hwynebu ac yn datblygu dealltwriaeth o sut i oresgyn y materion hynny, yn ogystal â hyrwyddo ffyrdd da o gyfathrebu â phobl gydag amddifadiad synhwyraidd.

### 8.4

D8.4 ylid cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth byddar a gweledol gan hyfforddwr achrededig (sydd yn ddall neu'n fyddar ei hunain), ac mae sefydliadau sy'n cynrychioli pobl gydag amddifadiad synhwyraidd mewn sefyllfa dda i gynghori. Dylai awdurdodau lleol a gweithredwyr ymgynghori a gweithio gyda GoSkills, y cyngor sgiliau sector ar gyfer y diwydiant cludiant teithwyr.

## 8.5

Erbyn diwedd yr hyfforddiant, dylai cyfranogwyr fod yn gallu:

- Egluro mewn termau cyffredinol sut y mae'r glust a'r llygad yn gweithio.
- Rhestru technegau cyfathrebu a ddefnyddir gan bobl gydag amddifadiad synhwyrdd.
- Diffinio hanfodion Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL).
- Cydnabod grwpiau cymdeithasol ac uniaethu o fewn cymuned gydag amddifadiad synhwyrdd.
- Rhestru cyfarpar sydd ar gael i bobl gydag amddifadiad synhwyrdd.
- Herio stereoteipiau ynglŷn â phobl gydag amddifadiad synhwyrdd.
- Adnabod y materion y mae pobl gydag amddifadiad synhwyrdd yn eu hwynebu yn ddyddiol a datrysiadau posibl mewn perthynas â deddfwriaeth berthnasol.
- Cydnabod anghenion cyfathrebu a'r gefnogaeth gyfathrebu ar gyfer y gwahanol grwpiau cymdeithasol.

## Cyfranogiad

### 8.6

Dylai hyn ddigwydd ym mhob newid i bolisi, arferion a darpariaeth gwasanaeth. Mae rhai gweithredwyr eisoes yn darparu cyfleoedd i bobl anabl i ymweld â'u darparwr cludiant lleol i ymgyswrtu â bysiau a threnau. Mae hyn yn rhoi hyder ychwanegol i rai teithwyr, yn enwedig y rhai hynny nad ydynt yn gyfarwydd â cherbydau cludiant cyhoeddus.

### 8.7

Gellid defnyddio siopwyr dirgel i werthuso effeithiolrwydd hyfforddiant staff. Yn y ddarpariaeth o wybodaeth hygyrch a chywir, dylai darparwyr cludiant orfod dangos beth maent yn ei wneud gydag enghreifftiau o fformatau eraill.

### 8.8

Mae gan Bus Users UK Cymru brofiad sylweddol o ymgymryd ag arolygon siopwr dirgel ledled y wlad, ac yn gweithio'n agos â gweithredwyr bysiau, yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr – drwy eu Swyddogion Cydymffurfio Bysiau – ac awdurdodau lleol. Mae rhwydwaith Defnyddwyr Bysiau o gynrychiolwyr lleol yn adnodd gwerthfawr yn hyn o beth.

## 8.9

Mae ymglymiad mecanweithiau adolygu sy'n cynnwys pobl gydag amddifadiad synhwyrdd yn hanfodol i sicrhau ufuddhau i bolisiau. Mae'n bwysig gweithio gyda sefydliadau, megis Bus Users UK Cymru, Passenger Focus a'r Pwyllgor Defnyddwyr Cludiant Cyhoeddus yng Nghymru, i sicrhau gweithrediad mecanweithiau adolygu addas.

## 8.10

Mae ymglymiad pobl gydag amddifadiad synhwyrdd yn hanfodol fel bod pob adolygiad a mecanwaith adolygu yn cael eu harwain gan bobl â phrofiad o'r materion.

## 8.11

Bydd ymagwedd o'r fath yn sicrhau bod adolygiadau yn ystyried barn pobl gydag amddifadiad synhwyrdd yn uniongyrchol. Drwy gynnwys pobl gydag amddifadiad synhwyrdd yn y broses o adolygu'r broses a'r canlyniadau'n uniongyrchol, mae adborth yn tynnu ar eu profiadau eu hunain. Mae mecanwaith adolygu cyfoed i gyfoed yn sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cyrraedd, eu cynnal a'u parhau gan y darparwr gwasanaeth.

## 8.12

Ceir potensial i grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl i gysylltu â'u darparwr cludiant lleol i wneud eu profiad o deithio yn un di-ffwdan.

## Gwybodaeth

### 8.13

Dylid darparu gwybodaeth i bobl sydd ag amddifadiad synhwyrdd sengl neu ddeuol, a dylai gweithredwyr arddangos yr amrywiol ffyrdd o dderbyn gwybodaeth teithio yn fwy amlwg.

### 8.14

Rhaid annog darparwyr cludiant i sicrhau bod gwybodaeth ar gael drwy amrywiol dulliau, gan gynnwys sicrhau bod staff rheng flaen yn ymwybodol am y byddar, gan ddarparu arddangosfeydd gwybodaeth amser real gweledol a clywadwy mewn arosfannau, gorsafoedd ac ar gerbydau, a darparu gwybodaeth mewn ystod o fformatau hygyrch. Dylai awdurdodau lleol a gweithredwyr ymgynghori a gweithio gyda Traveline Cymru, y siop-un-alwad yng Nghymru am wybodaeth cludiant cyhoeddus.

### 8.15

Bydd y system Gwybodaeth Trafnidiaeth i Deithwyr Cymorthedig bob amser yn hanfodol ar gyfer rhai teithwyr rheilffordd. Ond dylai'r nod fod i greu gwasanaeth sy'n hygyrch heb yr angen am gymorth "arbennig" – h.y. dylem fod yn edrych am ddatrysiadau sy'n ddatrysiadau llwyr.

### 8.16

Gwelir enghraifft bellach o ymarfer gorau yng ngorllewin Cymru. Mae Cyngor Sir Benfro wedi gosod y cyfrannau (33) cyntaf o arddangosiadau electronig mewn arosfannau bws fel rhan o system amser real yn y sir.

Yn ddarostyngedig i arbrofi llwyddiannus, bydd y gosodiadau, mewn amser, yn cael eu newid o wybodaeth restredig i amser real.

### 8.17

Yr arddangosiadau wedi'u gosod â seinyddion a fydd yn hysbysu pobl ddall neu rhannol ddall pwy sydd ag allwedd addas o leoliad ac amser yr ymadawiad nesaf, a'i gyrchfan. Yn gynwysedig hefyd mae'r cyfleuster – mewn cydweithrediad â Traveline Cymru – i dderbyn gwybodaeth amser real ar ffonau symudol. Bydd Traveline hefyd yn rhyngwynebu i ddarparu amser real ar ei wefan.

“Mae pobl yn dymuno symudedd annibynnol. Golyga hyn fynediad i wybodaeth amser real pan fo'r angen er mwyn hwyluso eu teithio mewn amgylchedd diogel, mewn modd amserol, effeithiol a di-ffwdan a chyda'r ddibyniaeth leiaf ar yrwyr neu gyd-deithwyr.”

# gwybodaeth bellach

## 9.0

### Gellir cael manylion pellach drwy'r canlynol:

---

Action on Hearing Loss ([www.actiononhearingloss.org.uk](http://www.actiononhearingloss.org.uk))

Cymdeithas Cludiant Cymunedol yng Nghymru ([www.ctauk.org](http://www.ctauk.org))

Cymdeithas 'Deafblind' ([www.deafblind.org.uk](http://www.deafblind.org.uk))

Anabledd Cymru ([www.disabilitywales.org](http://www.disabilitywales.org))

Cŵn Tywys Deillion ([www.guidedogs.org.uk](http://www.guidedogs.org.uk))

Leonard Cheshire ([www.lcdisability.org](http://www.lcdisability.org))

RNIB ([www.rnib.org.uk](http://www.rnib.org.uk))

### Cysylltiadau Defnyddiol Eraill

Trenau Arriva Cymru ([www.arrivatrainswales.co.uk](http://www.arrivatrainswales.co.uk))

Bus Users UK Cymru ([www.bususerswales.org](http://www.bususerswales.org))

Cyddfederasiwn Cludiant Teithwyr ([www.cpt-uk.org](http://www.cpt-uk.org))

First Great Western ([www.firstgreatwestern.co.uk](http://www.firstgreatwestern.co.uk))

GoSkills ([www.goskills.org](http://www.goskills.org))

Yr Adran Drafndiaeth ([www.dft.gov.uk/transportforyou/access/tipws/inclusivemobility](http://www.dft.gov.uk/transportforyou/access/tipws/inclusivemobility))

Passenger Focus ([www.passengerfocus.org.uk](http://www.passengerfocus.org.uk))

System Neilltuo Teithwyr Cymorthedig – Siop Ddirgel ([www.passengerfocus.org.uk/news-and-publications/document-search/document.asp?dsid=1897](http://www.passengerfocus.org.uk/news-and-publications/document-search/document.asp?dsid=1897))

Gwasanaeth Neilltuo Teithwyr Cymorthedig – Arfer Gorau ([www.passengerfocus.org.uk/news-and-publications/document-search/document.asp?dsid=1898](http://www.passengerfocus.org.uk/news-and-publications/document-search/document.asp?dsid=1898))

Gwybodaeth Amser Real ([www.rtig.org.uk/downloads.htm](http://www.rtig.org.uk/downloads.htm))

Gwasanaethau Cwsmer RNIB. Ffôn: 0845 702 3153.

Gwasanaethau trenau a gorsafoedd i deithwyr anabl – côd ymarfer ([www.rtig.org.uk/downloads.htm](http://www.rtig.org.uk/downloads.htm))

Traveline Cymru ([www.traveline-cymru.info](http://www.traveline-cymru.info))

Llywodraeth Cymru ([www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk))

## **Cyfeiriadau**

Audio and Visual Information on Buses: Moving Towards Inclusion.  
ISBN 0-9524038-4-6

[www.dft.gov.uk/transportforyou/access/rail/rfa/](http://www.dft.gov.uk/transportforyou/access/rail/rfa/)

Functionality and the Needs of Blind and Partially Sighted Adults in Wales.  
Guide Dogs (2007)

“Agored i Bawb (“Open to All?”) RNID Cymru

Sign Design Guide ISBN: 1858784123